(ii) pan fo cyhuddiad mor ddifrifol nes y byddai, pe câi ei brofi, yn cyfrif fel camymddwyn difrifol, a/neu

(iii) pan fernir bod gwahardd yr unigolyn yn angenrheidiol er mwyn gallu cynnal ymchwiliad llawn a thrylwyr.

Yn dibynnu ar amgylchiadau'r achos unigol, gall fod yn angenrheidiol, os atelir contract er anrhydedd gyda BCUHB, i'r Deon, drwy'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, geisio atal y contract o sylwedd gyda'r Brifysgol, gyda thâl llawn, wrth aros am ganlyniad ymchwiliad a gwrandawiad y GIG, ac unrhyw apêl ddilynol. Ni fydd unrhyw waharddiad dros dro o'r fath yn rhagfarnu unrhyw weithredu dilynol a gymer y Brifysgol.

Os bydd BCUHB yn atal neu'n terfynu contract er anrhydedd, bydd hynny'n arwain at adolygiad ar wahân gan y Brifysgol o gontract o sylwedd yr unigolyn dan sylw dan ddulliau gweithredu perthnasol y Brifysgol. Caiff adolygiad y Brifysgol ei ddechrau ar ôl cwblhau unrhyw apêl dan ddulliau gweithredu BCUHB.

Pe bai'r Cyngor Meddygol Cyffredinol neu'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cysylltu â'r Brifysgol fel cyflogwr yn dilyn cwyn am glinigydd academaidd a wnaed i un o'r cyrff hynny (gan aelod o'r cyhoedd, er enghraifft), bydd y Brifysgol yn cyfeirio'r mater at BCUHB er mwyn iddynt allu ymchwilio dan y dulliau gweithredu perthnasol os yw'r gwyn yn ymwneud â materion clinigol y GIG.

**b) Materion academaidd/y Brifysgol**

Y Brifysgol, yn unol â'r dulliau gweithredu perthnasol, fydd yn delio ag unrhyw fater